# Gwasanaeth Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

**This document is also available in English.**

## Cyllid Corfforaethol
## I’w gadarnhau

### Gareth Jones
### Pennaeth Cyllid

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Darparu ystod o gefnogaeth gyfrifyddol ac ariannol i bob gwasanaeth. Cyfrifol am gynhyrchu Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn unol â rheoliadau. Paratoi a monitro’r Cyllidebau ar gyfer y Cyngor ar draws bob gwasanaeth. Darparu ystod o swyddogaethau technegol i gefnogi’r Awdurdod gan gynnwys gwasanaethau Yswiriant; cymorth a chyngor TAW, cynnal systemau ariannol craidd i sicrhau adroddiadau ariannol prydlon a chywir ar draws y Cyngor; darparu swyddogaeth trysorlys effeithiol i sicrhau bod buddsoddiadau a benthyciadau’n unol â pholisi a bod cyllid ar gael i dalu am all-lifoedd arian parod. Rheoli cardiau prynu corfforaethol.

Sicrhau bod anfonebau’n cael eu prosesu a bod taliadau’n cael eu gwneud yn unol â’r Cod Ymarfer Ariannol, Rheoliadau Ariannol a gofynion deddfwriaethol. Darparu cyngor a chefnogaeth i bob gwasanaeth sy’n gyfrifol am godi archebion.

Sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu’n unol â thelerau ac amodau eu contractau. Darparu cefnogaeth a chyngor i weithwyr a gwasanaethau ar faterion yn ymwneud â chyflogau. Darparu gwasanaethau cyflogau i gyrff allanol yn unol â’r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd ar waith. Pwynt cyswllt ar gyfer cysylltu â darparwyr cynlluniau pensiwn.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

Cyfrifeg

Credydwyr

Cyflogau

Payroll

## Cyllid Addysg

### David Jones
### Prif Gyfrifydd

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Darparu ystod o gefnogaeth gyfrifyddol ac ariannol i Uwch Reolwyr, y Gwasanaeth Addysg, Penaethiaid a chyrff Llywodraethu.

Paratoi, monitro a rheoli cyllidebau cymorth canolog a chyllidebau dirprwyedig ysgolion.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

Tîm Cymorth Ysgolion

Tîm Cymorth Addysg Canolog

## Archwilio a Chaffael

### Sioned Parry
### Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Helpu’r Awdurdod i gyflawni ei amcanion trwy werthuso a gwella effeithlonrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu.

Darparu gwasanaeth caffael a chontractio drwy weithgareddau rheoli caffael/tendro a rheoli prosiectau er mwyn sicrhau gwerth am arian, nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Darparu ystod o weithgarwch gweinyddol gan gynnwys cynnal y gronfa ddata llofnodwyr awdurdodedig a rhoi cymorth / cyngor AD i uwch reolwyr a gwasanaethau perthnasol eraill o fewn Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

Gwasanaethau Archwilio Mewnol

Caffael Corfforaethol a Chontractau

Cymorth Gweinyddol

# Gwasanaeth Asesu Refeniw a Budd-daliadau

## Buddion

### Helen Hobson
### Rheolwr Gwasanaeth

## Beth maen nhw'n ei wneud:

Darparu gwasanaeth i gwsmeriaid Budd-daliadau Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor ac Asesiadau Ariannol.

Ymdrin â chyfrifo, prosesu a chynnal systemau ar gyfer Budd-daliadau Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor, Taliadau Dewisol Tai, Buddion Addysg (Prydau Ysgol am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol), gan gynnwys adfer budd-daliadau/taliadau a ordalwyd a gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru eraill, yn ôl yr angen.

Ymdrin â chyfrifo a phrosesu cyfraniad asesedig cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n derbyn gwasanaeth taladwy ar gyfer gofal preswyl neu amhreswyl.

## Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Prosesu Budd-daliadau

Gwasanaethau i Gwsmeriaid (Budd-daliadau)

Asesiadau Ariannol

## Incwm

### Mark Lambe
### Rheolwr Gwasanaeth

## Beth maen nhw'n ei wneud:

Darparu gwasanaeth i gwsmeriaid gan ymdrin â Mân Anfonebau ac ymholiadau'n ymwneud ag Incwm. Gweithredu fel gwasanaeth cymorth i bob adran fewnol mewn perthynas â Mân Anfonebau a gweithdrefnau'n ymwneud ag Incwm.

Ymdrin â pharatoi, uwchraddio a chynnal a chadw systemau, cofnodion a phrosesau ar gyfer Mân Anfonebau ac adfer Mân Anfonebau.

Rheoli'r gwaith o gysoni'r Incwm a dderbynnir o fewn yr Awdurdod. Llywodraethu polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas ag incwm ar draws Adrannau'r Cyngor a chydymffurfiaeth staff â'r rhain. Cyfrifoldeb dros arwain a datblygu systemau talu electronig o fewn yr Awdurdod. Cynnal cydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau a pherthnasoedd 3ydd parti sy'n berthnasol i hyn a phrosesu taliadau cardiau debyd neu gredyd yr Awdurdod. Gweinyddu system benthyciadau ceir gyda cheisiadau'r Cyngor.

## Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Mân Anfonebau

Adfer Mân Anfonebau

Cysoni Incwm

## Trethiant Lleol

### Susan Plumb
### Rheolwr Gwasanaeth

## Beth maen nhw'n ei wneud:

Darparu gwasanaeth cwsmer gan ymdrin ag ymholiadau mewn perthynas â Threth y Cyngor, Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ac Adfer.

Ymdrin â pharatoi a chynnal systemau a chofnodion ar gyfer Treth y Cyngor, cofnodion Trethi Annomestig Cenedlaethol a gweinyddu grantiau Llywodraeth Cymru eraill, yn ôl yr angen. Ymdrin â phrosesau adfer a chasglu dyledion ar gyfer Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol nad ydynt wedi cael eu talu, cyflwyno Rhybuddion Terfynol, Gwysion a Gorchmynion Dyled.

Ymdrin â phost sy'n dod i mewn at ddibenion sganio a mynegeio ar gyfer Gwasanaethau Asesu Refeniw a Budd-daliadau a Gwasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod.

## Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Treth y Cyngor

Prosesu Delweddau Digidol

Tîm gorfodi

Ardrethi Annomestig Cenedlaethol

Adfer